



**Tîm Integredig Cymorth i
Deuluoedd Caerdydd a'r Fro**

Gwybodaeth i Weithwyr Proffesiynol

Helpu teuluoedd i wneud newidiadau
a rhoi trefn ar eu bywydau



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Gwasanaeth ymyrraeth byr dymor mewn argyfwng
yw'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd sydd â'r
nod o gyflawni newid clir a mesuradwy yn y teulu.

Rydym yn dîm medrus, cymwys a chofrestredig o staff
proffesiynol a phrofiadol sydd wedi'n hyfforddi arbennig i
weithio gyda theuluoedd mewn argyfwng lle ceir problemau
gyda chamddefnyddio sylweddau, cyffuriau neu alcohol. Mae
ein tîm cyfredol yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol,
Ymwelydd Iechyd a Nyrs Seiciatrig Gymunedol.

Mae ein gweithwyr yn defnyddio ystod o fodolau
damcaniaethol yn cynnwys Cyfweld Ysgogiadol, Therapi Byr
sy'n Canolbwyntio ar Ddatrysiadau a Dulliau Ymddygiadol
Gwybyddol ac mae'n cyflawni canlyniadau da.

Beth rydym ni'n ei wneud

Ein nod yw helpu teuluoedd i greu lle diogel a chefnogol i
blant, lle mae'r rhieni a'r gofawlyr yn rhoi'r flaenoriaeth i
anghenion y plant ac yn canolbwyntio ar fywyd teuluol a'u
cyfrifoldebau fel rhieni.

Rydym yn defnyddio dull dwys o weithio gyda theuluoedd lle
ceir pryderon am fod y rhieni yn camddefnyddio sylweddau.
Mae ein dulliau ymyrryd yn canolbwyntio'n bennaf ar
ddatblygu strategaethau a sgiliau ymdopi sy'n galluogi pobl i
ddatrys yr argyfwng. Cânt eu grymuso i ganolbwyntio ar
ddyfodol mwy cadarnhaol gyda gobaiith, sgiliau, ymddygiad
a strategaethau newydd sy'n helpu i atal sefyllfaoedd o'r fath
rhag digwydd eto.

Amddiffyn Plant

Os bydd rhieni neu ofalwyr yn poeni y gallai eu plant gael eu
hanfon i gartref gofal neu eu cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn
Plant, yn aml ni fyddant yn gwybod beth i'w wneud nesaf,
gan deimlo'n ddiymadferth, yn ofnus, yn ddryslud, yn ddiig ...

Gallant deimlo nad yw eu strategaethau ymyrryd arferol yn
gweithio mwyach.

Dengys ymchwil fod argyfwng o'r fath, heb ymyrraeth, yn para rhwng 4 a 6 wythnos*. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd pobl yn fwy agored i newid. Heb ymyrraeth briodol, gallant ddychwelyd i'w hen batrymau o ymddygiad annifyr. Dyma'r adeg rydym yn gweithio gyda theuluoedd er mwyn eu galluogi i wneud newidiadau gwirioneddol.

Adsefydlu

Pan fydd plant wedi'u cymryd i fwrdd o gartref y teulu a bod awydd adsefydlu, ceir pryderon yn aml gan weithwyr proffesiynol, plant a theuluoedd y gallai'r plant ddychwelyd i'r un problemau a achosodd iddynt adael yn y lle cyntaf.

Rydym yn defnyddio'r un dulliau ac adnoddau ymyrryd mewn argyfwng i helpu teuluoedd i ganolbwyntio ar beth sydd angen ei newid, magu hyder a magu gobaith y gall pethau newid a chanolbwyntio ar sut y byddant yn gwireddu hynny.

Byddwn yn gweithio gyda'r teulu cyn, yn ystod ac ar ôl i'r plentyn ddychwelyd adref, a gallwn helpu'r teulu am 12 mis ar ôl i'r plentyn ddychwelyd adref.

Atgyfeirio

- Rhaid bod y plant yn wynebu risg wirioneddol o gael eu symud i gartref gofal neu eu cofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant
- Dylai'r plant ddychwelyd adref ar ôl cyfnod o ofal
- Rhaid bod problem gyffuriau neu alcohol gan un o'r rhieni
- Rhaid i deuluoedd sydd â phlant gartref fod mewn argyfwng a rhaid iddynt fod yn ymwybodol bod risg wirioneddol y gallai eu plant gael eu hanfon i gartref gofal neu eu cofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant
- Rhaid bod gan y plant Weithiwr Cymdeithasol dynodedig a fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am yr achos yn ystod ein hymyrraeth
- Bod y teulu yn cytuno i'r atgyfeiriad

Er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn ar yr adeg allweddol, nid oes rhestr aros gennym. Fodd bynnag, os yw'r tîm yn gweithio i'w gapasiti llawn, bydd yn dal i dderbyn yr atgyfeiriad ac yn ei adolygu pan fo lle ar gael. Bydd cymorth a chyngor ar ffyrdd effeithiol o weithio gyda theuluoedd ar gael hefyd.

Yn ystod y 72 awr gyntaf ar ôl yr atgyfeiriad, byddwn yn cynnal asesiad i bennu a fyddai'n briodol ac yn ddiogel i ymyrryd. Yna byddwn yn cysylltu eto â'r sawl a wnaeth yr atgyfeiriad gyda gwybodaeth ynglŷn â hyn. Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol a wnaeth yr atgyfeiriad yn cael gwybodaeth reolaidd am faterion diogelwch a hynt yr ymyrraeth drwy gydol y broses. Cyflwynir adroddiad terfynol ysgrifenedig.

Amlder cyswllt

Rydym yn cynnig ymyrraeth ddwys fydd yn para 4 i 6 wythnos.

Bydd ymyrraeth gydag ymarferwyr ar gael i deuluoedd i ddiwallu eu hanghenion ar yr adegau sydd fwyaf addas iddynt, nid o reidrwydd rhwng 9am-5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ond am o leiaf dridiau hyd at chwe wythnos.

Rydym yn gweithio yng nghartref y teulu yn bennaf ac yn cysylltu â nhw'n aml yn ystod y cyfnod hwn. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol i gadarnhau hynt yr ymyrraeth mis, tri mis, chwe mis a 12 mis ar ôl ymyrraeth ddwys lawn. Gallwn hefyd gynnig sesiynau ychwanegol i deuluoedd, y gellir eu trefnu gan y gweithiwr cymdeithasol neu'r teulu ar unrhyw adeg o fewn 12 mis ar ôl ein gwaith.

Cysylltu â ni

- Ffôn: 029 2087 3450
- E-bost: ifst@cardiff.gov.uk
- gwefan: www.candvifst.org